

Y Beibl yn iaith y bobl

Dyfalbarhad / cryfder

Ym 1588 cafodd y Cymry y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Y gŵr oedd yn bennaf cyfrifol am hyn oedd William Morgan. Bu'n offeiriad mewn sawl lle yng Ngogledd Cymru. Gorffennodd y gwaith pan oedd yn offeiriad yn Llanrhaeadr ym Mochnant. Dewch i ni gynnal cyfweiliad efo'r Dr William Morgan.

Fedrwch chi ddweud dipyn am eich magwraeth?

Mi ges i fy ngeni yn y Tŷ Mawr, Wybrnant, ym mhlwyf Penmachno. Roedd fy nhad yn denant ar ystad Plas Gwydir. John ap Morgan oedd enw fy nhad a Lowri oedd enw fy mam. Roedd y ddau yn dod o deuluoedd digon cefnog. Roedd yna bump o blant ar yr aelwyd a minnau oedd yr ail fab.

Lle cawsoch chi eich addysg?

Fel y gwyddoch chi, roedd teulu'r Wynniaid, Plas Gwydir, yn deulu cefnog iawn ond hefyd yn deulu galluog a diwylliedig. Ganddyn nhw y cefais i fy addysg gynnar. Pan oeddwn i oddeutu 24 oed fe es i Goleg Sant Ioan yng Nghaergrawnt. Ymhen tair blynedd roeddwn wedi graddio. Wedyn fe ddechreuais ar radd M.A. Ar gyfer y radd honno roedd rhaid i mi astudio pynciau fel Seryddiaeth, Groeg a Hebraeg. Cofiwch chi, bu astudio'r ieithoedd hyn yn help mawr wrth gyfieithu'r Beibl.

Fedrwch chi ddweud ychydig wrthyn ni am y gwaith o gyfieithu'r Beibl?

Fel y gwyddoch chi, roedd yr Hen Destament wedi ei ysgrifennu mewn Hebraeg. Roedd y Testament Newydd, ar y llaw arall, yn yr iaith Roeg. Mi roedd yna hefyd gopi o'r Beibl mewn iaith arall, sef Lladin. Tra oeddwn yn fyfyrwr yn y Coleg yng Nghaergrawnt roeddwn i wedi astudio'r tair iaith yma. Roeddwn i'n cyfieithu o'r ieithoedd hyn. Roedd yn golygu gwaith manwl iawn.

Gawsoch chi help gan bobl eraill?

Roedd William arall, William Salesbury, wedi bod wrthi'n

William Morgan: 1545-1604

cyfieithu'r Testament Newydd. Gwendid gwaith Salesbury oedd bod ei iaith y tu hwnt i'r bobl gyffredin. Felly, roedd hi'n bwysig fy mod i'n ysgrifennu mewn Cymraeg fyddai pawb yn ei ddeall. Mi roedd Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionydd, yn fyfyrwr efo mi yng Nghaergrawnt. Fe gefais help ganddo ef. Bu'r Esgob Richard Vaughan yn gymorth mawr i mi. A phan oeddwn i'n teimlo fel rhoi'r ffidil yn y to, byddai'r Archesgob Whitgift, Archesgob Gaergaint, yn fy siarsio i fynd ymlaen.

Mae yna sôn hefyd eich bod yn ddyndwylgar iawn ar brydiau.

Wel, mae'n siŵr bod hynny'n wir. Roedd yna gryn helynt rhyngof a theulu'r wraig. Bu'n rhaid i mi ymddangos gerbron Llys y Seren yn Llundain i bledio fy achos. Ond mae'n rhaid dweud fod nifer o'r achosion yn chwerthinllyd. Meddylwch, cyhuddo fy ngwraig Catherine o fod yn 'gomon' a'i bod yn mynd o dafarn i dafarn, ac mi roedd hyn yn fy ngwylltio'n gacwn.

Ar ôl i chi orffen y gwaith beth ddigwyddodd wedyn?

Wel, mi ges fy ngorseddu'n Esgob Llandâf. Esgobaeth dlawd iawn oedd Llandâf bryd hynny. Mi fûm i yno o 1595 i 1601. Penderfynodd yr Archesgob Whitgift mai fi oedd y dyn i Lanelwy. Ym 1601 fe ges fy ngorseddu yn Esgob ar yr Esgobaeth leiaf yng Nghymru. Ac yno y bûm i hyd ddiwedd fy ngyrfa.

Ond er gwaetha'r mân gecru, a'ch gwaith fel offeiriad, fe aeth y gwaith o gyfieithu'r Beibl yn ei flaen. Mawr ydi'n dyled i chi, William Morgan.



“Yr wyf wedi gosod fy mywyd ar ufuddhau i'th ddeddfau; y mae eu gwobr yn dragwyddol.”
Salm 119:112



Ysbryd Glân,
meddylia trwof fi
nes i'th syniadau di
fod yn syniadau i mi.
Amen.



Pa mor bwysig ydi'r iaith Gymraeg i chi?

William Morgan: 1545-1604